

BWRDD GWELLA A SICRWYDD MERTHYR TUDFUL

ASESIAD CYFLYM I LYWODRAETH CYMRU

**COMISIYNWYD GAN JULIE JAMES AC,
Y GWEINIDOG TAI A LLYWODRAETH LEOL**

**Cynhyrchwyd gan Dîm Craidd y Bwrdd
Rhagfyr 2019**

1. CYFLWYNIAD.

Cafodd cylch gorchwyl Bwrdd Gwella a Sicrwydd Merthyr Tudful ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru ar 24 Hydref, 2019. Roedd hyn yn dilyn cais uniongyrchol gan y cyngor i Lywodraeth Cymru am gymorth i wella. Mae Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi rhoi'r cylch gwaith canlynol i'r bwrdd –

- Monitro cynnydd y Cyngor wrth iddo gyflawni yn erbyn y Cynllun Gwella
- Cynghori a herio gweithgareddau trawsnewid a gwella corfforaethol y Cyngor gan gynnwys y gwaith sy'n dilyn argymhellion adolygiad cwmpasu John Gilbert
- Goruchwyllo a sicrhau bod yr holl gymorth allanol ar gyfer newid corfforaethol a phenodol i wasanaethau yn y Cyngor yn cael ei gydgysylltu
- Rhoi gwybodaeth yn rheolaidd i Weinidogion Cymru ac i swyddogion Llywodraeth Cymru am y cynnydd sydd wedi cael ei wneud ac, os oes angen, llunio argymhellion ar gyfer rhagor o gymorth neu addasiadau i'r pecyn presennol o gymorth.

A ninnau yn dîm sy'n arwain y Bwrdd, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni gynhyrchu asesiad cyflym o'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i symud ymlaen. Rydym hefyd i fod i fesur "ymrwymiad pob aelod i greu dyfodol cynaliadwy i'r cyngor". Er mwyn helpu, byddwn yn argymhell mesurau llywodraethu tymor byr ac wedi'u targedu, gan gynnwys pa gymorth sydd ei angen a sut gellir ei ddarparu yn y ffordd orau er mwyn cael yr effaith fwyaf bosib. **Mae'r rhain yn cael eu nodi yn yr adroddiad fel Camau Gweithredu ac maent wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd yn Atodiad 1 er hwylustod.** Rhoddir blaenoriaeth arbennig i addysg ac i wasanaethau cymdeithasol gan mai dyma ddau wasanaeth mwyaf y cyngor. Rhoddir blaenoriaeth hefyd i'r cefndir ariannol ac i'r llywodraethu corfforaethol yn gyffredinol.

2. TROSOLWG.

Nid diben y tîm ydy ailysgrifennu'r adroddiad a gynhyrchwyd gan John Gilbert, cyn Brif Swyddog Gweithredol Swindon. Cafodd canfyddiadau manwl John Gilbert eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ei adroddiad o'r enw *Yr Heriau Allweddol, y Capasiti a'r Gallu i Arwain, Llywodraethiant a Strategaeth*. Mae'r awdurdod wedi derbyn y canfyddiadau hyn. Dyma sylfaen ein gwaith mewn perthynas â sicrwydd. Roedd adroddiad John Gilbert yn canolbwyntio ar gyllid, llywodraethu a gofal cymdeithasol. Gan ein bod yn dîm mwy rydym wedi gallu ehangu'r ffocws i edrych ar feysydd eraill gan gynnwys addysg ac ystod ehangach o wasanaethau eraill. Rydym wedi ceisio llunio dadansoddiad o'r darlun llawnaf posibl o'r holl brif wasanaethau ac effeithiolrwydd eu cefnogaeth

gorfforaethol. Mae hyn wedi golygu treulio amser mewn sesiynau manwl gydag aelodau a swyddogion ar draws yr awdurdod yn dysgu am brofiadau uniongyrchol. Mae ein gwaith yn parhau yn hyn o beth. Rydym yn hynod ddiolchgar am y ffordd mae aelodau a swyddogion y cyngor wedi bod yn agored ac wedi ein helpu ni.

Roeddem wedi defnyddio argymhellion John Gilbert i arwain yr asesiad, yn enwedig wrth chwilio am gyfleoedd am ffordd drawsnewidiol o symud y cyngor i ffwrdd oddi wrth fod yn sownd mewn “meddylfryd o oroesi”. Er bod y cyngor wedi dechrau gweithio ar drawsnewid drwy ei ffrydiau gwaith thematig, megis dechrau mae hyn. Nid oes strategaeth i’r cyngor cyfan i gefnogi hyn hyd yma, er ei bod wrthi’n cael ei datblygu. Mae’r cyngor yn derbyn bod rhywfaint o gamau wedi cael eu cymryd i ddigideiddio gwasanaethau a’i fod yn defnyddio partneriaethau cydweithio/rhannu gwasanaethau mewn ffordd ddarniog. Mewn meysydd eraill, er gwaethaf presenoldeb y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, mae’r gyllideb yn canolbwyntio ar y tymor byr ac mae arni angen amserlen bendant i’w harwain. Mae’r gallu i ganfod atebion cyfrifyddu o unman yn nodwedd o ran o’r gyllideb, ond nid ydy hyn yn gynaliadwy. Mae angen manteisio ar ragor o gyfleoedd i resymoli’r gwaith o reoli ystadau ac mae angen rhoi strategaeth gweithio ystwyth ar waith. Yn yr un modd, mae strwythur rheoli’r cyngor yn ddryslyd. Mae swyddogaethau wedi cael eu symud yn raddol i feysydd gwahanol wrth i nifer y rheolwyr ddisgyn. Mae hyn wedi golygu bod y cysylltiadau adrodd yn aml yn aneglur a bod y grwpiau gwasanaethau’n ddryslyd.

Cam Gweithredu 1 – Dylid cynnal adolygiad byr o rolau a chyfrifoldebau’r uwch reolwyr i roi min ar strwythur rheoli a threfniadaethol y cyngor a diffinio portffolios a rhychwantau gwaith yn glir.

Nid ydy’r pwyntiau uchod yn rhai dadleuol gan eu bod wedi cael eu codi’n gyson yn ein trafodaethau. Pwysleisir na chaiff yr un o’r pwyntiau hyn eu cyflwyno fel beirniadaeth. O’r Prif Weithredwr Dros Dro, i’w ddirprwy ac uwch swyddogion eraill, mae’r ymrwymiad parhaus i bobl Merthyr Tudful ac i’r cyngor wedi cael cryn argraff arnom. Mae’r holl aelodau etholedig rydym wedi siarad â nhw, gan gynnwys arweinydd y Cyngor, Kevin O’Neill, ei gabinet ac arweinwyr y gwrthbleidiau, yn frwd dros wella’r fwrdeistref sirol a pharhau â’r daith drawiadol o drawsnewid economaidd. Dros y ddau ddegawd diwethaf mae Merthyr Tudful wedi bod yn brif ganolfan is-ranbarthol yng Nghymoedd De Cymru. Mae rhestr o brosiectau posibl eraill yn yr arfaeth, gan gynnwys y Prosiect Crochan Treftadaeth, yr orsaf fysiau newydd a phrosiectau eraill sydd ar y gweill. Maent hefyd wedi ymroi i sicrhau bod tir y cyhoedd o amgylch Merthyr Tudful yn lân, yn wyrdd ac yn ddiogel.

Fodd bynnag, mae'r uchelgeisiau hyn wedi cael eu gosod mewn cyd-destun ariannol sy'n gwaethygu, ac mewn gwirionedd mae'r cyngor wedi gorfod cwtdogi a lleihau. Roedd adroddiad diweddar a gyflwynwyd ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi cael sylw yn y cyfryngau. Roedd yn tynnu sylw at y ffaith bod colli staff yn golygu na allai'r cyngor ddangos ei fod yn darparu pob gwasanaeth iechyd yr amgylchedd statudol. Mae problemau tebyg yn bodoli ar draws meysydd gwasanaeth eraill y cyngor. Mae hyn yn arwain at ein prif bryder. **Yn y bôn, mae diffyg capasiti a chadernid cryf yn y sefydliad drwyddo draw wedi golygu nad oes agenda trawsnewid.** O ran colli swyddi, rydym yn gweithio gyda swyddogion i gael gwybod yn union faint o ostyngiad a fu yn sefydliad y cyngor dros y pum mlynedd diwethaf. Bydd hyn yn rhan o ganfyddiadau'r adolygiad o gapasiti. Fodd bynnag mae Tabl 1 isod yn enghraifft sy'n dangos effaith y newidiadau mewn maes sensitif fel gofal cymdeithasol i oedolion. Pennir yn aml fod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei "ddiogelu", ond mae'r gostyngiadau a ddangosir yn taflu goleuni ar hyn. Yng nghyswllt gofal cymdeithasol, daw hyn hefyd ar adeg pan ofynnir i'r gwasanaeth gymryd rhan mewn agenda ranbarthol fwy gyda'r gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd ymdopi â phwysau'r "gwaith o ddydd i ddydd". Rydym yn amau bod hon yn broblem go iawn i amryw o awdurdodau llai ledled Cymru.

Tabl 1 – Gofal Cymdeithasol i Oedolion ym Merthyr Tudful

Where we were 2012	Where we are now 2019
<ul style="list-style-type: none"> • Assistant Director Adults • 2 Heads of Service (1 Care Management, 1 Provision) • 6 Service Managers • Central Support in SSD for strategic developments • Executive Support • Development officers for OP,MH,LD Substance Misuse • Supporting People • 7 teams (with managers and senior social worker in each team) 	<ul style="list-style-type: none"> • 1 head of service • 1 principal manager • 3 teams (one mental health, one OPLD and one front line service with three managers, two senior social workers and one newly grant funded senior)

Yn y cyd-destun hwn, mae diwylliant y sefydliad yn un sy'n dangos parodrwydd i newid ond mae'n cael ei rwystro oherwydd diffyg arweiniad a chyfle i fynd â hyn rhagddo ar yr un pryd â gwneud y "gwaith o ddydd i ddydd". Er enghraifft, roeddem wedi siarad â'r Cabinet am eu cynlluniau ar gyfer cyflawni digidol a newid sianeli. Mae'n amlwg bod ewylllys i gofleidio dull gweithredu o'r fath ond cydnabyddir nad oes digon o adnoddau i gyflawni hynny. Y diwrnod ar ôl ein trafodaeth, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a


Llywodraeth Leol £500,000 o gyllid y flwyddyn i dalu am Brif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol ac Uned Gyflawni ategol. **Byddem yn dadlau bod Merthyr Tudful yn safle peilot delfrydol ar gyfer yr adnodd hwn.**

Rhaid canmol ymateb y swyddogion. Yn y bôn mae pawb yn torchi eu llewys ac yn rheoli drwy ymateb i broblemau brys yn hytrach na chynllunio ar gyfer y dyfodol. Oherwydd ei natur, mae'r pwyslais yn adweithiol ac yn raddol. Yn y cyd-destun hwn nid yw'n syndod nad oes gan y cyngor weledigaeth glir ar gyfer Merthyr Tudful ar hyn o bryd a chafodd hyn ei amlygu yn adroddiad John Gilbert. Mae'r effaith ar fodel gweithredu'r cyngor yn broblemus. Mae'r sefydliad yn gweithredu drwy gadw ei drwyn uwchben y dŵr. O ganlyniad, hyd yn oed pan fydd strategaethau i newid ar waith, mae'r cynnydd yn cael ei lesteirio a dim ond gyda golwg ar y tymor byr y gall y cyngor weithredu, gan fyw o'r llaw i'r genau lle gall newid mewnol/allanol mawr herio hyfywedd yn ddifrifol. O ganlyniad, rydym wedi siarad â'r Prif Weithredwr Dros Dro sydd wedi cytuno i gynnal adolygiad o gapasiti i ddod o hyd i'r meysydd hynny lle mae bylchau yn y gwasanaeth yn peri risg uchel. Cawn ar ddeall bod Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu her ar gyfer y broses. Mae hi'n hollbwysig bod yr Undebau Llafur yn cymryd rhan lawn, ac roedd tîm y bwrdd yn ddiolchgar iawn am y drafodaeth fanwl a gawsom gyda nhw ar y materion hyn. Rydym hefyd yn bwriadu parhau â'r ddeialog hon.

Cam Gweithredu 2 - Dylai'r adolygiad o gapasiti helpu i gyfrannu at y syniadau ynghylch y strwythur rheoli mwyaf priodol i'r cyngor fel y nodir yng Ngham Gweithredu 1. Awgrymir y dylai'r adolygiad o gapasiti fod yn rhan o'r pecyn cymorth ynghyd â darparu cynghorydd allanol annibynnol.

Dyweddodd John Gilbert fod angen dull gweithredu i drawsnewid sydd â digon o adnoddau ac sy'n cael ei gyfleu'n glir er mwyn i'r cyngor gynnal ei hun yn y dyfodol ac rydym yn cytuno â hynny (gweler isod). Mae nifer o gynghorau wedi defnyddio'r model sydd yn Nhabl 2. Cafodd hwn ei ddatblygu gan yr Athro John Kotter, a hoffem weld canfyddiadau'r ffrydiau gwaith presennol yn cael eu trosi'n ddull gweithredu trosfwaol o'r fath.

Tabl 2.



Rydym yn falch y bu ymateb llawn gan y cyngor yng Nghyfarfod cyntaf y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd a'i fod yn derbyn bod angen cyflymu'r agenda trawsnewid ar frys. Roedd hyn yn galonogol. Wrth ymateb i argymhellion adroddiad John Gilbert roedd arwyddion clir hefyd bod cefnogaeth bosibl i hyn ar draws arweinyddiaeth wleidyddol y cyngor a'i grwpiau. Mae angen clymblaid ar sail ymddiriedaeth sy'n mynd â rhaglen newid y cyngor rhagddi ac sy'n berchen ar y broses newid. Mae'r tîm wedi cael trafodaethau defnyddiol gyda Llywodraeth Cymru ynghylch darparu cymorth allanol i helpu'r Cyngor. Yn benodol, datblygu agenda trawsnewid a gwella sy'n addas i'r diben ac yn ystyrlon, yn ogystal â systemau effeithiol i reoli perfformiad a chraffu.

Cam Gweithredu 3 – Rydym yn cynnig gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu'r cyngor drwy ddod o hyd i gymorth allanol i ddatblygu cynllun trawsnewid / gwella, a fyddai'n seiliedig ar brif ganfyddiadau ac argymhellion adolygiad cwmpasu John Gilbert ond nid dim ond y rheini.

Ond ni all prosiectau trawsnewid gyflawni popeth. Mae natur fregus y sefyllfa bresennol yn real a chafodd hyn ei ddangos drwy'r gorwariant diweddar ar wasanaethau plant oherwydd cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, rhai ohonynt o'r tu allan i'r sir. Mae'r cyngor wedi buddsoddi cryn ymdrech i fynd i'r afael â hyn. Mae hyn wedi arwain at addasu'r gyllideb sydd wedi golygu bod y gorwariant a ragamcanwyd wedi disgyn o £779,000 ym mis Gorffennaf 2019 i ragamcanu alldro cyllideb diffyg net o £85,000 ar gyfer 2019/20 ar sail y sefyllfa ariannol ar 30 Medi 2019. Er bod hyn i'w ganmol mae gan y tîm bryderon mawr am allu'r cyngor i ddelio â phroblemau ymarferol sy'n parhau. Er enghraifft, swyddog monitro'r cyngor yw ei unig gyfreithiwr gofal plant cymwysedig sy'n darparu cyngor ac yn cynnal achosion ac eiriolaeth ar ran gwasanaethau cymdeithasol. Mae hi hefyd yn gyfrifol am Adnoddau Dynol, Cyfreithiol ac ystod o wasanaethau eraill.


Dim ond dros y tymor byr mae modd cynnal y ffordd hon o weithio gyda phawb yn helpu drwy ei gilydd ac yn anochel mae'n golygu bod y cyngor yn dibynnu ar ewyllys da a bod sefyllfa o'r fath yn un fregus. Os bydd problemau'n codi mewn gwasanaethau, boed hynny drwy absenoldeb oherwydd salwch neu broblemau personol, mae hi'n mynd yn anoddach llenwi'r bylchau ac mae hon yn risg gorfforaethol fawr. **Rydym wedi defnyddio'r adolygiad o gapasiti i ofyn i swyddogion nodi'n benodol y swyddi hynny sy'n dibynnu ar un ffactor.** Er enghraifft, mae'r Prif Swyddog Addysg yn dibynnu'n llwyr ar Gonsortia Addysg Canolbarth y De am Adnoddau Gwella. Nid oes adnodd swyddog cymorth gwella mewnol. Mewn rhannau eraill o Gymru, mae nifer o gynghorau wedi cadw eu capasiti strategol eu hunain er mwyn darparu cymorth mwy pwrpasol gan yr AALI.

Ar lefel ehangach mewn swyddogaethau fel peirianeg, rheoli fflyd ac arolygu, mae problemau tebyg yn bodoli gyda swyddogaethau'n dibynnu ar ewyllys da. Er ei bod yn anodd mesur hyn, credir bod hyn hefyd yn arwain at broblemau o ran cyflymder rheoli a chyflawni prosiectau. Er enghraifft, un Peiriannydd Siartredig sydd gan y cyngor.

Ar ben hynny, mae ein tîm yn poeni bod y dull gweithredu presennol yn bychanu rôl monitro perfformiad. Er enghraifft, mae hi wedi bod yn anodd i'r cyngor recriwtio therapyddion galwedigaethol. Mae hyn yn deillio'n rhannol o'i bolisi recriwtio sydd wedi rhoi'r cynnig cyntaf am swyddi gwag i ymgeiswyr mewnol. Fodd bynnag, mae hyn yn arwain at oedi ac yn effeithio ar berfformiad mewn perthynas â swyddi arbenigol.

Yn y cabinet ar 20 Tachwedd, dywedwyd bod tanwariant o £350,000 ar grantiau cyfleusterau i'r anabl. Ar hyn o bryd mae perfformiad y cyngor eisoes yn chwarterl isaf cynghorau Cymru (gweler Tabl 2). Mae'r tanwariant hwn yn 41% o'r gyllideb gyfredol sef £850,000 ac mae'n effeithio ar deuluoedd agored i niwed a gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach. Mae'r sefyllfa hon hefyd yn dilyn tanwariant o £125,000 ar grantiau cyfleusterau i'r anabl yn 2018/19. Ar ben hynny mae effeithiolrwydd yn ogystal ag effeithlonrwydd y gwariant yn hollbwysig. Cawn ar ddeall fod egwyddorion y polisi recriwtio bellach wedi cael eu diwygio gan y Tîm Rheoli Corfforaethol.

Tabl 3



Ffynhonnell: Data Cymru

Derbynnir bod y dangosydd hwn yn gallu bod yn un lleihaol, ond o ran sensitifrwydd gwleidyddol, mae'n un mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw ato'n rheolaidd yng nghyswllt perfformiad awdurdodau lleol ledled Cymru. Cawn ar ddeall fod y gwasanaeth yn ceisio uno â Rhondda Cynon Taf i greu mwy o gapasiti ac mae angen symud hyn ymlaen ar frys.

Enghraifft arall o fonitro perfformiad heb i hynny arwain at welliant ydy casglu'r dreth gyngor gan fod Merthyr Tudful wedi bod â'r perfformiad gwaethaf ond un o bob cyngor yn gyson ers blynyddoedd lawer heb unrhyw strategaeth amlwg i newid.

Cam Gweithredu 4 - Mae achos clir dros edrych yn fanylach ar bosibilrwydd rhannu gwasanaethau a mentrau cydweithredol mewn meysydd eraill yn enwedig swyddogaethau cefnogi'r cyngor. Mae'r tîm yn cynnig y dylid edrych ar hyn yn fanwl ac y dylai trafodaethau ddechrau ar unwaith gydag awdurdodau cyfagos.

Yr unig reswm dros dynnu sylw at yr enghreifftiau hyn ydy er mwyn dangos pa mor anodd ydy'r heriau o ran capasiti ar hyn o bryd. Mae hefyd yn ategu pwynt John Gilbert ei bod yn rhaid “datblygu “dangosfwrdd” i'r cyngor, fydd yn hwb i drafodaethau, heriau a phenderfyniadau strategol”.

3. LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL.

Ceir consensws cyffredinol bod y blociau adeiladu ar gyfer cyngor cymwys sy'n gweithredu'n llawn yn seiliedig ar y ffactorau canlynol –

- arweinyddiaeth â ffocws;
- diwylliant proffesiynol;
- strategaeth glir;
- cyfathrebu effeithiol;
- ymgysylltu â phartneriaid, dinasyddion, defnyddwyr a staff;
- rheoli pobl;
- rheoli perfformiad;
- systemau effeithiol, er enghraifft caffael;
- diwylliant o welliant parhaus

Ym Merthyr Tudful mae ambell elfen o'r themâu hyn ar waith, ond mae problemau wedi codi ers sefydlu'r weinyddiaeth newydd yn 2017. Mae hyn yn arbennig o wir o ran arweinyddiaeth. Cytunwyd yn ddiweddar ym mis Gorffennaf 2019 y byddai Prif Weithredwr y Cyngor yn gadael ar ôl cyfnod hir yn y swydd. Er hynny, mae'n amlwg bod y berthynas rhwng nifer o uwch aelodau a swyddogion wedi chwalu cyn iddo adael. Mae'r Cabinet yn derbyn hyn ac yn dweud bod y berthynas â swyddogion wedi gwella dros y misoedd diwethaf. Ond mae effaith ddiwylliannol hyn wedi arwain at anawsterau. Yn y bôn ni chafodd y weinyddiaeth ddechrau da o ran ei pherthynas â'r sefydliad. Dylid bod wedi cael cyfnod o feithrin cysylltiadau a dysgu gan y naill ochr a'r llall ond roedd yn gyfnod o gamweithredu a drwgdybiaeth yn aml. Mae'r Cabinet wedi dadlau bod hyn wedi golygu y bu'n rhaid iddynt ofyn am gyngor o'r tu allan i'r cyngor yn rheolaidd fel sail i wneud penderfyniadau a'u bod wedi gorfod dibynnu arnynt eu hunain. Er bod hyn yn ymateb rhesymegol, roedd hon yn sefyllfa ddrwg a arweiniodd at hinsawdd o amheuaeth rhwng aelodau allweddol a swyddogion. Oherwydd hyn, mae ein tîm yn teimlo bod angen rhagor o waith ar frys ar y berthynas rhwng aelodau a swyddogion, ac mae angen deall rôl aelodau etholedig a chraffu yn iawn. Teimlwn y bydd hyn yn helpu'r cyngor i symud ymlaen. Mewn sefydliad bach mae hi'n hanfodol bod aelodau a swyddogion yn cyd-dynnu.

Rydym wedi siarad â swyddogion ac aelodau allweddol am y materion hyn ac wedi cael gwybod bod y canlynol wedi digwydd hyd yma -

- Rhaglen Gynefino – rhaglen helaeth ac ymgysylltiad da i ddechrau,

Problem - ond nid yw'r aelodau wedi ymgysylltu â'r cynigion dilynol

- Datblygu Gwaith Craffu – darparodd CLILC ddwy sesiwn cyflwyno ar ôl yr etholiadau diwethaf (Mehefin 2017)

Problem – mae John Gilbert wedi gweld bod angen gwella'r gwaith craffu ar frys – mae Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn o'r farn nad ydy perfformiad y gwaith craffu yn ddigon da

- Datblygu'r Cabinet – mae rhai sesiynau wedi cael eu cynnal, dan arweiniad Jonathan Huish, ymgynghorydd allanol. Mae rhai o'r rhain wedi cynnwys swyddogion.

Problem – mae'r tîm yn ansicr o'r meysydd dan sylw a pha mor aml cynhelir y sesiynau. Rydym hefyd yn gwybod am rywfaint o gynnydd yn dilyn argymhelliad John Gilbert am Fwrdd Gwella Strategol. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal, ond dim ond ar y gyllideb.

- Academi Arweinyddiaeth – erbyn diwedd mis Mawrth, bydd bron i holl aelodau'r cabinet wedi bod drwy'r Academi Arweinyddiaeth.

Parhaus

Cam Gweithredu 5 – Datblygu'r Arweinydd, y Cabinet ac Aelodau

Beth sydd ei angen?

- ***Mae'r Arweinydd wedi cytuno i gael rhagor o gefnogaeth mentora a ddarperir gan y Cynghorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd Sir Ddinbych ers tro. Mae sesiwn mentora wedi cael ei chynnal.***
- ***Arweinyddiaeth ac ymrwymiad gan Arweinwyr Grŵp i sicrhau bod aelodau'n cymryd rhan yn y rhaglen gwella. Mae angen i bawb lenwi PDR.***
- ***Arweinyddiaeth a Chysylltiadau Gwleidyddol (rhwng y weinyddiaeth a'r gwrthbleidiau a rhwng y weinyddiaeth a swyddogion) – Rydym wedi siarad â CLILC sy'n cynnig Max Caller CBE, Prif Weithredwr profiadol iawn sydd wedi gweithio i Lywodraeth Cymru ac sy'n mentora arweinwyr a phrif weithredwyr ar draws Lloegr.***
- ***Datblygu'r Cabinet, creu gweledigaeth a chynllunio – caiff hyn ei ddarparu o bosibl gan y Cynghorydd Neil Prior sy'n uwch gynghorydd Annibynnol o Sir Benfro. Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi'i argymhell gan ei fod wedi gwneud gwaith tebyg yn Lloegr ac mae'n is-gadeirydd Bwrdd Gwella'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.***

- *Sgiliau Cadeirio – ar gyfer pob cadeirydd (gallai CLILC ddarparu neu gomisiynu hyn). Mae hyn yn cynnwys pwyllgorau craffu a rheoleiddio megis Cynllunio.*
- *Craffu – datblygu sgiliau er mwyn cael trefniadau craffu cadarn a threfnus.*

Yn ei adolygiad roedd John Gilbert wedi dod o hyd i wendidau yn y broses graffu. Roedd hyn yn cynnwys diffyg trosolwg effeithiol o berfformiad y cyngor yn ei gyfanrwydd, ac mewn meysydd unigol.

Mae angen cryfhau'r trosolwg cyffredinol o'r cyngor a'r gwaith craffu, gan ganolbwyntio ar ddangosyddion perfformiad allweddol. Roedd adroddiad John Gilbert yn argymhell datblygu 'dangosfwrdd corfforaethol' o ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae hwn yn cael ei ddatblygu a bydd ar gael maes o law. Bydd angen cael ffordd effeithiol o gael trosolwg cyffredinol a chraffu'r 'dangosfwrdd corfforaethol' hwn a pherfformiad y cyngor yn erbyn y dangosyddion allweddol hyn.

Mae gallu'r pwyllgorau craffu i ddatblygu eu rhaglen waith eu hunain wedi cael ei danseilio oherwydd diffyg blaengynllun gwaith gan y Cabinet, er bod hwn yn cael ei ddatblygu'n awr a bron wedi'i gwblhau. Byddai hyn yn golygu bod pwyllgorau craffu yn gallu cynllunio eu gwaith mewn ffordd sy'n cyfrannu'n fwy effeithiol at gefnogi datblygu polisiâu rhagweithiol yn y meysydd hynny lle mae penderfyniadau allweddol ar fin cael eu gwneud. Dylai'r cyngor ystyried cyflwyno Adroddiad Blynnyddol gan yr Arweinydd / Cabinet i Gyfarfod Blynnyddol y Cyngor a fyddai'n rhoi gwerthusiad ac asesiad gonest o berfformiad y flwyddyn flaenorol, ynghyd ag amlinelliad o'r prif heriau a'r meysydd datblygu polisi sy'n wynebu'r awdurdod dros y flwyddyn nesaf. Byddai hyn yn sail i flaengynllun gwaith y Cabinet ac yn golygu bod pwyllgorau craffu yn gallu cynllunio eu gwaith mewn ffordd sy'n golygu ei fod yn cyfrannu at y penderfyniadau a'r datblygiadau polisi sydd ar y gweill.

Bu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y ffordd mae Aelodau unigol o'r Cabinet yn cael eu dal i gyfrif, ac nid ydy hyn wedi bod yn gyson ar draws pob un o'r pwyllgorau craffu. Mae angen i'r holl bwyllgorau craffu weithio mewn ffordd gyson ac y cytunir arni o ran sut mae Aelodau'r Cabinet yn adrodd i bwyllgorau graffu a sut y craffir ar berfformiad a phenderfyniadau.

Cam gweithredu 6 – Mae angen rhagor o ddatblygiad pwrpasol ar aelodau o ran sut mae craffu'n effeithiol (cyfrifoldeb a swyddogaeth graidd craffu, sgiliau holi, defnyddio data etc). Mae angen i hyn sicrhau y gall craffu gyflawni ei brif swyddogaeth sef “dal y Weithrediaeth i gyfrif” ar yr un pryd â chyfrannu'n fwy cadarnhaol at ffurfio polisiâu a datblygu fframwaith polisi

cyffredinol y cyngor. Cyflwyno cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd rhwng Cadeiryddion Craffu i hybu rhannu profiadau a dulliau gweithredu.

Dyma'r prif ystyriaethau:

- Rhaglen ar gyfer pwyllgorau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau hyn,
- Hyfforddiant Rhianta Corfforaethol i bob aelod.
- Mae sefydliad llwyddiannus yn un sy'n dysgu'n barhaus o'i gangymeriadau. Mae angen adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer delio â chwynion er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o broblemau. Gellid rhoi gwybod am hyn fel rhan o ddangosfwrdd perfformiad y Cyngor.

Pwynt olaf yw ein bod wedi siarad ag ystod gyfyngedig o bartneriaid allanol, gan gynnwys awdurdodau lleol cyfagos. Ond teimlwn fod angen rhagor o waith i brofi'r gwerth ychwanegol o'r gwaith a wneir mewn fforymau megis Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gwybodaeth gynnar yn awgrymu bod rhywfaint o ddyblygu rhwng y ddau fforwm olaf.

Bydd gweddill yr adroddiad hwn nawr yn crynhoi ein canfyddiadau ar y prif broblemau mewn gwasanaethau a'r cymorth posibl sydd ei angen i fynd i'r afael â'r rhain.

4. CYLLID CORFFORAETHOL.

Mae nifer o ddogfennau wedi sôn am sefyllfa ariannol y Cyngor ac mae hynny wedi arwain at yr asesiad cyfredol. Fodd bynnag, mae'n werth ailadrodd rhai o'r prif bwyntiau sy'n peri pryder gan fod ein hymarfer wedi cadarnhau'r sylwadau hynny.

“Mae bwlch cyllideb Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor o £15 miliwn dros y cyfnod o bedair blynedd, a'r gostyngiad yn lefel y cronfeydd wrth gefn, yn awgrymu'n gryf na all y Cyngor barhau i weithredu fel y mae wedi bod yn ei wneud yn ymarferol. Nid yw'n gynaliadwy i'r cyngor ddibynnu ar ei arian wrth gefn i gefnogi costau parhaus gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw a'r diffygion a ragwelir yn y dyfodol. Mae'n hynod bwysig ystyried balans yr arian wrth gefn yn ofalus a sut byddai modd defnyddio hyn i gefnogi cynlluniau ariannol. Mae'r her sy'n wynebu'r cyngor yn sylweddol. “ Swyddfa Archwilio Cymru. Ebrill 2019

“Mae'r ffrydiau gwaith wedi dechrau'n rhy hwyr i gael yr effaith angenrheidiol ar yr arbedion sydd eu hangen ar gyllideb y flwyddyn nesaf. Hyd yma, nid

ydynt yn ddigon cyson ac nid oes iddynt ddigon o ffocws i awgrymu eu bod wedi cyrraedd cam yn eu datblygiad a fydd yn sicrhau y bydd modd gweddnewid y sefydliad yn llwyddiannus.

Er bod Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn seiliedig ar gyfnod o 4 blynedd, mae meddylfryd a chynlluniau'r Cyngor yn gwyro at gyfnod cynllunio cyllidebol o flwyddyn.

.....mae gormod o bwyslais yn cael ei roi ar yr angen i Ofal Cymdeithasol Plant fantoli'r gyllideb ac ni dderbynnir bod angen gweddnewid gweddill y Cyngor.”
John Gilbert. Medi 2019

Mae'n amlwg bod dealltwriaeth dda o realaeth sefyllfa'r gyllideb yn y Cyngor ac mae amrywiol Fyrddau yn bodoli i ddatblygu neu i archwilio materion ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys Bwrdd y Gyllideb a'r Bwrdd Rheoli Newid yn ychwanegol at strwythur cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor lle mae materion ariannol yn rhan o'r Cylch Gorchwyl. Ar ben hynny, y cofnod cyntaf ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor ydy'r "risg nad yw'r Cyngor yn mantoli'r gyllideb ac nad yw'n gynaliadwy yn ariannol" ac mae'r gofrestr yn nodi'r camau sydd ar waith i reoli'r risg.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2019 yn rhagamcanu diffygion o £8.175miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2020/21, £3.441miliwn ar gyfer 2021/22 a £3.384miliwn ar gyfer 2022/23 sy'n cyfateb i ffigur cronus o £15 miliwn dros y cyfnod. Mae'r prif dybiaethau cyllido yn cynnwys cynnydd o 5.99% yn y dreth gyngor a gostyngiad o 1% yn y setliad refeniw ym mhob un o'r tair blynedd

Yn gryno, dyma sy'n cyfrannu at gyllideb gyfredol y cyngor a dyma sut mae'n cael ei defnyddio:

Adnoddau	%	Defnyddiwyd/gwariwyd	%
Grant Llywodraeth Cymru	67	Gweithwyr	43
Y dreth gyngor	13	Costau rhedeg	51

Ardrethi annomestig	12	Cyllid cyfalaf	4
Rhenti, ffioedd ac ati	8	Ardollau	2
Cyfanswm	100	Cyfanswm	100

Mae sefyllfa monitro refeniw'r flwyddyn gyfredol yn dangos bod pethau'n gwella o ragamcanu £989,000 o orwariant ym mis 3 i ragamcanu £85,000 o orwariant ym mis 6. Mae'r ffigur diweddaraf hwn yn cynnwys rhagamcanu £614,000 o orwariant ar wasanaethau (i lawr o £989,000) wedi'i wrthbwysu gan incwm ychwanegol o'r dreth gyngor ac arbed £529,000 oherwydd swyddi gwag. Mae'r sefyllfa ddiweddaraf o ran monitro cyfalaf yn rhagamcanu tangyflawni £528,000 ar brosiectau sy'n cael cyllid craidd, er y bydd llawer o'r cyllid i gefnogi cynlluniau'n cael ei gario drosodd i'r dyfodol.

Mae'r sefyllfa ar gyfer y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a'r rhai sydd wedi'u clustnodi wedi newid yn sylweddol yn ddiweddar ac ar hyn o bryd bwriedir i lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol fod ar y lefel isaf a gymeradwyir. Mae Cyfrifon Blynyddol 2018/19 yn dangos:

Cyfrif	Ar 31.3.2019	Ar 31.3.18	Newid ers 2017/18
	£000	£000	£000
Cronfa wrth gefn gyffredinol	4,700	4,700	0
Cronfa wrth gefn Yswiriant	2,169	2,169	0
Balansau ysgolion	1,762	1,846	-84
Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi	6,896	12,405	-5,509

Roedd cyllideb 2019/20 yn cynnwys defnyddio £1,779,000 o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a £483,000 o'r gronfa wrth gefn gyffredinol, gan ddod â'r olaf i 3.51% o'r gyllideb flynyddol.

Beth ydy'r heriau/cyfleoedd?

Mae mantoli'r gyllideb ar gyfer 2020/21, ond hefyd dros y tymor canolig, yn flaenoriaeth uniongyrchol amlwg. Er bod llawer o'r gwaith yn mynd rhagddo a

bod ymgysylltiad ar draws y cyngor gan aelodau'r Cabinet a swyddogion, bydd angen gweithio mewn ffordd strategol dros y tymor hwy i lwyddo'n llawn.

Er y gallai'r Setliad Dros Dro a gyhoeddir ar 16 Rhagfyr ddarparu rhywfaint o seibiant ar gyfer 2020/21, dylid manteisio ar y cyfle i edrych dros y tymor canolig i weld a ellir defnyddio adnoddau i gefnogi cyllidebau yn y dyfodol. Gall hyn hefyd fod yn gyfle i neilltuo swm mewn Cronfa Fuddsoddi Gorfforaethol wedi'i hadfer y gellid ei defnyddio drwy broses fidio fewnol i fuddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth. Mae angen ystyried unrhyw newid i broffil y cynnydd yn y dreth gyngor yn ofalus iawn gan fod gostyngiad yn golygu bod yr incwm i'r cyngor wedi'i ildio am byth.

Ar gyfer 2020/21, mae angen cwblhau'r cynigion arbedion sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd cyn gynted â phosibl, gan gofio ei bod hi bob amser yn well gwneud penderfyniadau anodd mor gynnar â phosibl mewn cylch etholiadol.

Mae angen adolygu'r ffrydiau gwaith yn y Rhaglen Newid er mwyn cofnodi llwybrau clir at weithredu arbedion a bod modd eu cyfateb i gyflawni ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol. Mae angen ystyried adnoddau i gyflawni'r newidiadau yn yr ymarfer er mwyn parhau â'r momentwm. Mae hyn yn gofyn am alinio adnoddau prin gyda blaenoriaethau corfforaethol ar yr un pryd â chyflenwi digon o wasanaethau.

Cam gweithredu 7 – Cyllid corfforaethol

- ***Mae angen i swyddogion ac aelodau'r Cabinet gytuno ar amserlen cyllideb sy'n nodi'r dyddiadau olaf i gytuno ar gydrannau'r gyllideb.***
- ***Codi ymwybyddiaeth o'r strategaeth ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y gyllideb.***
- ***Dylid adolygu lefel a fformat yr wybodaeth a ddefnyddir mewn cyflwyniadau i randdeiliaid gan gynnwys y cabinet, grwpiau gwleidyddol, cyflogeion, undebau llafur a phwyllgorau, er mwyn hybu dealltwriaeth o'r rhesymau dros benderfyniadau anodd.***
- ***Adolygu defnyddio unrhyw welliant yn setliad ariannol 2020/21 yn erbyn cefndir yr her ariannol tymor canolig.***
- ***Ystyried cyflwyno polisi chwyddiant yn adroddiad cyllideb 2020/21 a fyddai'n dileu'r angen am adroddiadau codi tâl penodol.***
- ***Adolygu cyfrifon mantolen i weld a oes modd rhyddhau unrhyw adnoddau yn y dyfodol.***
- ***Ehangu nifer yr awdurdodau yr ymgysylltir â nhw i rannu arferion da.***

Caffael Corfforaethol

Fel sy'n digwydd ar draws y cyngor ar gyfer swyddogaethau eraill, mae'r tîm caffael corfforaethol yn fach iawn sy'n golygu nad oes modd gweithio mewn ffordd strategol yng nghyswllt caffael. Mae gwybodaeth am wariant, gwerthwyr a pherfformiad contractau yn agweddau pwysig ar ymarferion monitro perfformiad a gwerth am arian, felly awgrymir cynnal dadansoddiad o Wariant Categori gan ddefnyddio cefnogaeth allanol.

Cam gweithredu 8 – Caffael corfforaethol

Dadansoddi gwarant categori gyda chefnogaeth allanol.

Rheoli Perfformiad/Trawsnewid

Mae llawer iawn wedi cael ei gofnodi am sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad a thrawsnewid a bod angen trefniant sy'n fwy systematig, ond mae'n amlwg bod y materion hyn yn dechrau cael sylw er bod llawer eto i'w wneud. Mae capasiti swyddogion yn broblem i'r Cyngor yn gyffredinol, ond mae'n hanfodol dod o hyd i adnoddau er mwyn mynd â'r rhaglen trawsnewid angenrheidiol rhagddi. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn gweithio i gyflawni'r un deg un ffrwd waith bresennol, ond ar lefel weithredol mae gan y swyddog sy'n gyfrifol hefyd lu o gyfrifoldebau eraill sy'n amharu ar ei ffocws ar newid.

Mae'r ffrydiau gwaith presennol yn tueddu i fod yn seiliedig ar wasanaethau yn hytrach na themâu sy'n golygu nad oes cymaint o gyfle i weithio ac i ddysgu ar draws y cyngor. Er enghraifft, byddai angen i ffrwd sy'n edrych ar drawsnewid Digidol gynnwys pob rhan o'r cyngor ond dylai arwain at wobrau mwy nag atebion sy'n perthyn i wasanaeth penodol. Yn yr un modd, er bod Swyddog Adolygu Eiddo'r cyngor wedi cael y dasg o resymoli'r portffolio eiddo ac adolygu gofynion llety swyddfa, dylai fod gan hyn ei linydd thematig ei hun yn y Rhaglen.

Mae Rheoli Perfformiad yn un arall o gyfrifoldebau'r unigolyn hwn. Mae dogfen Diweddariad Rheoli Corfforaethol wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd a allai fod yn Ddangosfwrdd i'r Cyngor at ddibenion rheoli perfformiad. Dyma'r math o ddogfen a fyddai'n cael ei defnyddio gan Aelodau ac uwch swyddogion i drafod perfformiad ac uchelgais strategol, mewn ffordd gyson a gwybodus. Er ei bod wrthi'n cael ei datblygu, nid yw'r ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol eto ac nid yw'n glir sut bydd yr ymarfer yn cael ei ariannu'n barhaus.

Ers mis Ebrill 2019 mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu drwy bartneriaeth gyda Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro

Morgannwg. Dylid manteisio ar y cyfle i ddysgu gan yr awdurdodau hyn o ran prosesau ac arferion rheoli perfformiad.

Cam gweithredu 9 – Trawsnewid/Newid

- *Mae angen cwblhau cydrannau'r Rhaglen newydd yn brydlon a datblygu strategaeth gyfathrebu bellgyrhaeddol.*
- *Fel rhan o ddull gweithredu ffurfiol y Cyngor mae angen cwblhau a mabwysiadu'r dangosfwrdd Rheoli Perfformiad sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.*

5. ADDYSG.


Cafodd yr awdurdod ei roi mewn Mesurau Arbennig yn 2012 a'i dynnu allan yn 2016 oherwydd penderfynwyd ei fod wedi gwella digon dros y cyfnod hwnnw.

Mae gan Fwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 22 ysgol gynradd, 4 ysgol uwchradd, un Ysgol Arbennig ac Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae system drydyddol wedi bod ar waith ar gyfer addysg ôl-16 ers 2012 ac mae'n cael ei darparu gan Goleg Merthyr Tudful.

Yr ysgol uwchradd fwyaf o bell ffordd ydy Ysgol Uwchradd Cyfarthfa (1121 o ddisgyblion yn 2018), sy'n ysgol i oddeutu 40% o'r holl ddisgyblion ysgol uwchradd yn y fwrdeistref sirol. Yna mae Ysgol Uwchradd Afon Taf (645), Ysgol Uwchradd Pen y Dre (576) ac Ysgol Uwchradd Bishop Hedley (491).

Mae lefelau cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4 yn bryder mawr. Yn 2017/18 Merthyr Tudful oedd yr awdurdod lleol â'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru o ran y dangosydd allweddol 'lefel 2 a mwy' – pum TGAU gradd A*-C, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg. O'i gymharu â chyfartaledd Cymru a oedd yn cyrraedd y lefel hon sef 55.1%, dim ond 42.7% oedd y gyfradd ym Merthyr Tudful (gweler Tabl 4). Mae'r sefyllfa hon wedi gwaethygu eto yn 2018/19, gyda'r ffigurau interim yn awgrymu bod perfformiad yr awdurdod lleol yn 34.0% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 49.9%.

Tabl 4



Ffynhonnell - Data Cymru

Mae angen mynd i'r afael â'r lefelau cyrhaeddiad gwael hyn ar frys, a sicrhau bod modd delio â'r cyfnod o ddiwygio addysg sydd ar y gweill yng Nghymru. Ar lefel ysgol unigol, gellid dweud mai dim ond un o'r pedair ysgol uwchradd (Bishop Hedley) sy'n perfformio'n dda o ran lefelau cyrhaeddiad a chanlyniadau. Mae un ysgol yn benodol, Ysgol Uwchradd Cyfarthfa, yn destun pryder penodol. Yn arolwg diweddaraf ESTYN o Ysgol Uwchradd Afon Taf cafodd yr ysgol ei rhoi yn y categori sy'n galw am 'adolygiad ESTYN'.

Mae Ysgol Uwchradd Cyfarthfa yn cymryd rhan yn un o brosiectau peilot Llywodraeth Cymru sydd newydd ddechrau, a dim ond un cyfarfod o'r tîm amlasiantaethol sydd wedi cael ei gynnal hyd yma. Yn ogystal â sicrhau gwelliannau yn yr ysgol, mae'r prosiect hwn hefyd yn gyfle i asesu ac i fireinio gwaith y rheini sy'n rhannu cyfrifoldebau dros berfformiad a gwella, gan gynnwys arweinwyr yr ysgol, y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a'r consortiwm gwella ysgolion. Mae sicrhau bod pob un o'r partion sydd yn yr amgylchedd amlasiantaethol hwn yn gweithio'n effeithiol yn flaenoriaeth uchel, nid yn unig i'r un ysgol hon ond ar draws y ddarpariaeth addysg drwyddi draw.

Roedd canlyniadau 2019 Ysgol Uwchradd Cyfarthfa yn dangos bod y perfformiad 'lefel 2 a mwy' wedi gwaethygu ymhellach o 45.1% i 39.3%, sydd wedi cyfrannu at ostwng cyfradd yr awdurdod yn ei gyfanrwydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ysgol hon yn gwneud yn wael o ran canlyniadau cyffredinol, mesurau gweddilliol ac wrth gymharu â'i charfan 'teulu' o ysgolion tebyg. Mae'r ysgol eisoes wedi derbyn llythyr rhybudd anffurfiol gan yr awdurdod lleol. Mae'r 'sgôr pwyntiau capio 9' ar gyfer disgyblion blwyddyn 11

sy'n 15 oed, hefyd yn dangos darlun sy'n peri cryn bryder. Merthyr Tudful oedd yr olaf o'r 22 ardal awdurdod lleol gyda sgôr o 317.9 o'i chymharu â chyfartaledd Cymru sef 349.5.

Mae dadansoddiad o'r 'mesurau gweddilliol', sef mesur perfformiad yn ôl canlyniadau disgwyl, yn dangos bod un ysgol – Bishop Hedley – yn gwneud yn well o lawer na'r disgwyl (17.1 pwynt canran yn uwch), ond mae Cyfarthfa 13.4 pwynt canran yn is. Mae Afon Taf hefyd yn is na'r disgwyl ar ddata 'mesurau gweddilliol', sef minws 7.9 pwynt canran.

Mae'r ffordd mae data a pherfformiad yn cael eu monitro ym myd addysg yn newid yng Nghymru. Yn dilyn newidiadau i fframwaith perfformiad Cymru gyfan, bydd y dangosyddion capio 9 a mesurau gweddilliol yn fwy amlwg ymhlith y prif ddangosyddion ar gyfer monitro perfformiad yn y dyfodol.

Yn yr un modd ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae cyrhaeddiad y rheini a ddaw o deuluoedd incwm isel, sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, yn is o lawer na'r cyfartaledd. Dim ond 23.8% o'r bobl ifanc hynny a enillodd y dangosydd lefel 2 a mwy yn 2018, o'i gymharu â 42.7% ar gyfer yr awdurdod drwyddo draw, a 50.7% o'r rheini nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae presenoldeb yn yr ysgol hefyd wedi bod yn destun pryder. Roedd absenoldebau hanner diwrnod heb awdurdod mewn ysgolion uwchradd ar gyfer 2017/18 yn 3%, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 1.6%. Roedd absenoldebau hanner diwrnod oherwydd pob absenoldeb yn 7.5%, o'i gymharu â 6.1% ar gyfer Cymru gyfan. Roedd presenoldeb uwchradd yn 2017/18 wedi disgyn 0.5% i 92.5%, sef yr isaf o'r 22 awdurdod yng Nghymru.

Yn y sector ysgolion cynradd, nid yw'r sefyllfa'n peri pryder mor uniongyrchol. Mae ESTYN wedi arolygu 9 o'r 22 ysgol gynradd yn ystod y cylch arolygu presennol a dim ond un a gafodd ei rhoi mewn unrhyw gategori ffurfiol, sef adolygiad ESTYN (Ysgol Gynradd Edwardsville).

Yn yr un modd, mae arwyddion yn dangos bod perfformiad y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn ddigonol, ond bod lle i wella. Mae gan Ferthyr Tudful drefniadau partneriaeth ar waith ar gyfer Gwasanaeth Seicoleg ar y cyd gyda Rhondda Cynon Taf.

Mae canlyniadau ôl-16 Coleg Merthyr wedi bod yn dda, ond mae'r lefelau cyrhaeddiad isel yng nghyfnod allweddol 4 yn golygu bod y garfan sy'n mynd i mewn i Addysg Bellach yn is nag y dylai fod, ac mae'r disgyblion hynny'n dilyn eu hastudiaethau ar lefel sy'n is na'r disgwyl.

Cydnabyddir bod gwasanaethau ieuentid yn cyflawni lefelau uchel o ymgysylltu a chanlyniadau cadarnhaol. Roedd 21% o'r bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed wedi ymwneud â'r gwasanaeth ieuentid yn 2017/18, sef 5% yn uwch nag ar gyfer Cymru gyfan. Cafodd 15% o'r bobl ifanc hynny ganlyniadau achrededig, sy'n uwch o lawer na chyfartaledd Cymru (10%).

Mae perfformiad y Fforwm Ieuentid yn brawf o gyfranogiad pobl ifanc, ynghyd â chynlluniau fel ethol Maer Ieuentid (gyda 2,500 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn yr etholiad); Rhaglen Arweinwyr Ifanc (gyda 150 o bobl ifanc yn cymryd rhan); Cynhadledd Flynyddol lwyddiannus i Fyfyrrwyr; a chynrychiolwyr ieuentid ar bwyllgorau craffu'r cyngor.

Maes arall sy'n peri pryder ydy capasiti'r awdurdod i gyflawni prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif gan fod y profiad hyd yma wedi bod yn broblemus. Mae hwn yn faes y bydd angen ei asesu ymhellach.

Gwella ysgolion

Mae nifer o gyrff yn rhannu'r cyfrifoldeb dros reoli ysgolion a sicrhau gwelliannau. Mae hyn yn gallu arwain at ddryswch ac ymateb nad yw'n ddigon 'cydgysylltiedig' oni bai fod pob parti'n deall ei rôl yn glir, a sut mae gwaith un parti yn cyd-fynd â gwaith y parti'ion eraill ac yn ei gefnogi.

Cyrff llywodraethu ysgolion sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol yn effeithiol o ddydd i ddydd. Mae'r awdurdod lleol yn cadw ei rôl fel yr awdurdod addysg lleol ac mae ganddo ystod o bwerau statudol i gyflawni'r rôl honno; mae'r awdurdod lleol hefyd yn darparu rhai gwasanaethau'n uniongyrchol fel y Gwasanaeth Ieuentid ac Uned Cyfeirio Disgyblion, yn rheoli derbyniadau i ysgolion, cefnogaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn y blaen; Consortiwm Canolbarth y De sy'n gyfrifol am wella ysgolion ac mae'n gwasanaethu pum ardal awdurdod lleol; mae ESTYN yn arolygu ysgolion a darparwyr addysg ac yn 'Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.'

Yn ystod y cyfnod pan roedd yr awdurdod mewn Mesurau Arbennig, rhwng 2012 a 2016, roedd lefelau cyrhaeddiad wedi gwella'n sylweddol, ac roedd nifer o gynlluniau wedi'u cefnogi gan yr awdurdod (megis prosiectau adolygu / paratoi ar gyfer arholiadau ar y cyd). Fodd bynnag nid ydy'r rhain wedi cael eu cynnal, yn rhannol oherwydd prinder cyllid a bod hwnnw wedi gostwng.

Cydnabyddir bod yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol drwy herio ysgolion a gwneud rhai newidiadau allweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae ganddo Brif Swyddog Addysg profiadol a benodwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Mae'r Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am addysg yn brofiadol ac wedi'i chyflogi yn y byd addysg, ac nid oes dwywaith ei bod wedi ymrwymo'n llwyr i'r rôl. Bu rhai newidiadau pwysig i'r ffordd caiff darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ei threfnu, drwy sefydlu Uned Cyfeirio Disgyblion mwy cadarn o lawer; newidiadau i drefniadaeth ysgolion yn y sector cynradd, fel Ffedereiddio Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog ac Ysgol Gynradd Trelewis; ac mae pwerau statudol wedi cael eu defnyddio droeon, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiad rhybuddio anffurfiol i Ysgol Cyfarthfa.

Mae gan y cyngor fwrdd ysgolion corfforaethol sy'n herio ysgolion unigol, ac mae ei aelodau'n dod o amrywiaeth o bartneriaid, ac yn cynnwys y Prif Weithredwr Dros Dro a'r Dirprwy, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu a Phennaeth Coleg Merthyr.

Mae cydnabyddiaeth bod adroddiadau a hunanasesiadau diweddar gan y cyngor wedi bod yn onest ac yn dangos dealltwriaeth o'r angen i wella a bod y cyngor yn derbyn bod angen newid. Fodd bynnag, mae angen mwy o frys a darlun cliriach o sut fath o newid sydd ei angen.

Mae'r Aelod Cabinet wedi datgan ei bod yn dymuno sefydlu strategaeth addysg gyffredinol ar gyfer Merthyr Tudful. Bydd y strategaeth hon – Codi Dyheadau: Codi Safonau – yn barod ar gyfer ymgynghoriad yn gynnar yn 2020. Bydd angen i'r strategaeth hon roi'r sylfaen ar gyfer rhaglen glir i wella ac i drawsnewid ysgolion, a gweledigaeth ehangach ar gyfer dysgu i'r fwrdeistref sirol, fel elfen hanfodol o'r weledigaeth ar gyfer dyfodol Merthyr Tudful drwyddo draw.

Beth ydy'r heriau?

Mae gwella cyrhaeddiad yn flaenoriaeth frys amlwg. Bydd angen y canlynol i wneud hynny:

Cam gweithredu 10 – Addysg

- ***Sefydlu dealltwriaeth glir a manwl o beth mae gwella a thrawsnewid ysgolion yn ei olygu ym Merthyr Tudful; lle mae angen gwneud gwelliannau; beth ydy'r blaenoriaethau; a pha ran mae angen i bob parti sy'n ymwneud â darparu addysg ei chwarae.***
- ***Rhagor o ymdrechion i wella presenoldeb ac ymddygiad, gan adeiladu ar y cynlluniau sydd eisoes ar waith.***
- ***Rhagor o gydweithio rhwng ysgolion, a darparwyr eraill, i rannu adnoddau ac arferion gorau. Gyda dim ond pedair ysgol uwchradd, ac***

- un Coleg Addysg Bellach, mae cyfle gwych i Ferthyr Tudful ddatblygu agwedd sy'n wirioneddol 'golegaid' o ran darparu a gwella addysg.*
- *Dealltwriaeth gadarn o rôl Cyrff Llywodraethu, yr awdurdod lleol a chonsortiw m Canolbarth De Cymru a'r ffordd mae pob un yn chwarae ei ran yn y strategaeth gyffredinol. Bydd hi'n hanfodol cael dealltwriaeth glir o rôl pob partner, gan gydweithio fel tîm integredig tuag at strategaeth sydd wedi cael ei datblygu'n ofalus.*
 - *Yn benodol, mae angen cynnal asesiad pellach o waith y Consortiw m, ac mae angen i'r awdurdod lleol adolygu ar frys a ydy'r gefnogaeth bresennol gan y Consortiw m yn effeithiol a'r hyn sydd ei angen i herio ysgolion yn fwy effeithiol a chefnogi gwelliannau.*
 - *Parodrwydd gan yr awdurdod lleol i ddefnyddio ei bwerau statudol i'r eithaf os na fydd pethau'n gwella.*
 - *Yn benodol, efallai bydd angen penderfyniad ar frys ynghylch pa gamau pellach a gymerir i gefnogi Ysgol Uwchradd Cyfarthfa i wella gan fod llythyr rhybudd anffurfiol eisoes wedi'i gyhoeddi ond mae'r canlyniadau'n dal i beri pryder mawr.*
 - *Ailwerthuso rôl pwyllgor craffu'r cyngor i sicrhau ei fod yn chwarae ei ran drwy fonitro'r cynnydd a datblygu a chyflawni'r strategaeth ar gyfer addysg a gwella ysgolion.*
 - *Asesiad o effeithiolrwydd cyrff llywodraethu ysgolion a rôl llywodraethwyr a benodir gan yr awdurdod lleol. Mae angen i'r rheini a benodir gan yr awdurdod lleol yn benodol ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt yn y rôl a beth ydy uchelgais a gweledigaeth yr awdurdod ar gyfer addysg ac ysgolion ym Merthyr Tudful.*
 - *Sicrhau parodrwydd digonol ar gyfer cyfnod o ddiwygio addysg a newid yn y cwricwlwm.*
 - *Yn dilyn arweiniad y Prif Swyddog Addysg, dylai Merthyr Tudful sefydlu dull amlasiantaeth, ar sail model 'Cynhadledd Gwella' anffurfiol sydd wedi cael ei fabwysiadu'n llwyddiannus mewn rhannau eraill o Gymru. Byddai hyn yn dod â phartïon allweddol ynghyd sy'n cynnwys yr awdurdod lleol (gan gynnwys Aelodau etholedig), penaethiaid, llywodraethwyr, y consortiw m addysg, Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac eraill, er mwyn rhoi sylw i faterion megis perfformiad, llythrennedd a rhifedd a phryderon ehangach.*
 - *Yn olaf, rydym yn argymhell y byddai'r cyngor yn elwa o gapasiti ychwanegol nawr ac yn y tymor byr (oddeutu chwe mis) ar ffurf cyngorwyr allanol mewn addysg er mwyn cyflymu'r newid a'r gwelliant angenrheidiol sydd eu hangen ar y cyngor. Bydd cylch gwaith a phwrpas y cyngorwyr allanol yn cael eu datblygu ar y cyd â'r aelod allanol perthnasol o'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth / Prif Swyddog perthnasol o'r Cyngor. O ran Addysg,*

byddai hefyd yn ddefnyddiol archwilio'r posibilïadau i gael cymorth drwy'r consortia.

Oherwydd y sefyllfa ddifrifol gyda'r lefelau cyrhaeddiad presennol, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4, bydd hyn yn anochel yn cael llawer o sylw dros y cyfnod nesaf. Fodd bynnag, bydd datblygu strategaeth drosfwaol ar gyfer addysg a dysgu ym Merthyr Tudful yn rhoi cyfle i edrych ar ystod ehangach o faterion gan gynnwys cyfraddau cyfranogiad mewn addysg Bellach ac Uwch, sgiliau galwedigaethol ac effeithiolrwydd darpariaeth y cyfnod sylfaen a'r blynyddoedd cynnar.

6. GOFAL CYMDEITHASOL A THAI

Roedd adroddiad John Gilbert yn cyfeirio at safbwynt yn y sefydliad a oedd yn peri pryder sef mai Gwasanaethau Plant oedd yr unig wasanaeth yr oedd angen ei newid yn radical a bod delio â phroblemau yn y gwasanaeth hwnnw'n golygu datrys problemau'r cyngor yn gyffredinol. Roedd gorwariant sylweddol yn y gwasanaeth wedi cyfrannu at y safbwynt hwn. Fodd bynnag, mae archwiliad cychwynnol o'r gwasanaeth yn awgrymu bod rhoi sylw i'r gorwariant wedi arwain at ei leihau i'r graddau y mae'r ffigur sydd bellach yn cael ei rhagamcanu yn weddol resymol ac o dan £100,000 o'i gymharu â'r gorwariant gwreiddiol a oedd dros £1 miliwn.

Mae ein hymngysylltiad â'r tîm rheoli gwasanaethau plant hyd yma, sydd wedi cynnwys cyswllt â defnyddwyr sydd wedi elwa o'r gwasanaeth, yn awgrymu bod y staff wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau ymatebol sy'n seiliedig ar strategaethau cwbl gadarn. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i gyflawni gweledigaeth sy'n cofleidio nid yn unig egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ond egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd. Mae'r camau gweithredu'n seiliedig ar yr angen i gamu i mewn yn gynnar ym mywydau pobl sy'n golygu na fydd risg ac anghenion yn gwaethygu ac i roi amgylchedd sy'n fwy sefydlog i'r plant hynny sy'n derbyn gofal. Ceir tystiolaeth bod canlyniadau da yn cael eu cyflawni i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ym Merthyr Tudful.

Fodd bynnag, mae'r newid yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn dal yn anwadal, ac yn gallu amrywio cymaint â 30% i'r naill gyfeiriad a'r llall mewn blwyddyn, gyda chynifer â 19 o blant yn derbyn gofal mewn mis. Mae hyn yn dangos pa mor anodd ydy cynnal gwasanaeth sefydlog, yn enwedig mewn sefyllfa lle mae'r capasiti'n gyfyngedig. Mae natur gwasanaethau cymdeithasol, i blant ac i oedolion, yn golygu eu bod yn cael eu harwain gan y galw sy'n ei gwneud hi'n anodd rheoli cyllidebau pan fo'n rhaid diwallu darpariaeth statudol. Mae rhagamcanion o orwariant yn nodwedd gyffredin felly wrth reoli

gwasanaethau cymdeithasol, ac yn golygu bod angen ymateb pwylllog gan Aelodau etholedig sy'n seiliedig ar ganfod ac ar ddeall beth sy'n achosi hyn a sicrhau bod camau gweithredu yn dilyn sy'n cael cefnogaeth gorfforaethol briodol. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn teimlo bod elfennau o ddiwylliant o weld bai yn dal i fodoli yn y cyngor a bod rhai yn credu mai gorwariant y gwasanaeth ydy gwraidd y problemau i wasanaethau eraill y cyngor.

Mae nodweddion problem capasiti gyffredinol Merthyr fel y mae'n ymwneud â gofal cymdeithasol yn cynnwys gormod o amlwasgio, diffyg capasiti strategol, heriau chwarae rhan lawn yn y bartneriaeth ranbarthol, anawsterau yn gwreiddio ac yn cynnal arferion da, ac anallu i wireddu'r newidiadau strategol ar y raddfa a'r cyflymder sydd eu hangen. Mae toriadau blynyddol mewn cyllidebau wedi arwain at nifer isel iawn o staff ar lefel prif swyddog mewn gwasanaethau oedolion, sydd wedi golygu bod y gwasanaeth yn agored i niwed o ran cyflawni ei rhaglen newid a sicrhau gwasanaethau sy'n gyson ddiogel. Mae cefnogaeth weinyddol a busnes hefyd wedi lleihau'n ddifrifol ac mae adleoli rhai o'r swyddogaethau hyn i'r ganolfan gorfforaethol wedi effeithio ar ansawdd ac argaeledd y gefnogaeth bwrpasol sydd ei hangen er mwyn rhedeg gwasanaeth gofal cymdeithasol llwyddiannus. Mae hyn maes o law yn lleihau hyder y rheolwyr gwasanaeth yn y gefnogaeth a geir.

Mae'n rhaid i staff ym Merthyr Tudful weithio mewn ffordd greadigol i wneud iawn am y diffyg capasiti ac mae ganddynt gyfraniad gwerthfawr at yr agenda ranbarthol sydd ei hangen o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Fodd bynnag, maent yn cael eu rhwystro rhag gwella eu partneriaeth ymhellach oherwydd ei bod yn rhaid iddynt flaenoriaethu eu "gwaith o ddydd i ddydd". Er y gellid dweud bod hyn yn wir ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'r sefyllfa yn waeth ym Merthyr. Dyma'r awdurdod lleiaf o'r tri yn y bartneriaeth ranbarthol ac mae hyn yn golygu bod arnynt ofn colli allan ar y dyraniadau ranbarthol o'r gyllideb ond hefyd mae angen ymdrech anghymesur i gymryd rhan lawn mewn materion ranbarthol. Nid yw'n syndod ei bod yn annhebygol y gall Merthyr Tudful arwain ar nifer o gynlluniau ranbarthol er ei fod yn gallu dangos ei fod yn dilyn yr arferion gorau. Mae'n rhaid gweithio'n ranbarthol mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac mae'n rhaid rhoi sylw i allu Merthyr i chwarae ei ran yn llawn.

Mae'r Aelod Cabinet dros wasanaethau cymdeithasol yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig gyda chefnidir mewn datblygu cymunedol ac mae ganddo wybodaeth a dealltwriaeth dda o gymhlethdodau rheoli'r gwasanaeth. Mae'n amlwg wedi ymrwymo i gefnogi newidiadau cadarnhaol ac mae ei ddadansoddiad SWOT ei hun yn cefnogi ein canfyddiadau cychwynnol sy'n galonogol.

Disgwylir adroddiad cyn bo hir gan Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch agweddau ar ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol a cheir ar ddeall y bydd hefyd yn cadarnhau canfyddiadau cyffredinol ein hasesiad cychwynnol. Fodd bynnag, mae'n ddoeth aros am yr adroddiad hwn cyn llunio casgliadau manylach ar y cam cynnar hwn. Rhaid pwysleisio hefyd fod angen rhagor o waith manwl i gadarnhau a gaiff y canfyddiadau cychwynnol hyn eu cefnogi gan dystiolaeth ystadegol gadarnach.

Cam gweithredu 11 – Gofal Cymdeithasol

- ***Mae'r broblem o ran capasiti yn amlwg ac mae'n debygol y bydd cefnogaeth ychwanegol wedi'i thargedu ar frys, yn enwedig ym meysydd cymorth busnes a rheoli newid, yn debygol o ddwyn ffrwyth yn weddol gyflym. Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac rydym yn chwilio am gymorth.***
- ***Mae angen cynnal trafodaethau gyda sefydliadau partner i brofi eu dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu Merthyr Tudful ac i archwilio ffridd o sicrhau bod cyfraniad Merthyr at waith rhanbarthol yn cael ei wella, ynghyd â'r budd a gaiff o hynny. Rydym yn fodlon hwyluso'r trafodaethau hyn.***
- ***Mae angen trafodaethau mewnol rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a chydweithwyr yn y ganolfan gorfforaethol i sicrhau bod digon o gymorth busnes a gweinyddol ar gael bob amser. Unwaith eto rydym yn fodlon hwyluso'r rhain a byddai modd iddynt fod yn rhan o unrhyw waith ar adolygu strwythur y sefydliad.***

Gan gydnabod pwysigrwydd yr agenda ranbarthol, mae cyfarfodydd wedi cael eu cynllunio yn y dyfodol agos gydag uwch swyddogion y bwrdd iechyd lleol, y trydydd sector, a'r awdurdodau lleol partner er mwyn sefydlu darlun llawnach o sut mae ei rôl yn y bartneriaeth ranbarthol yn effeithio ar Ferthyr Tudful.

Roedd y cyngor wedi trosglwyddo ei swyddogaeth landlord cymdeithasol yn 2009 i landlord cymdeithasol cofrestredig newydd, Cartrefi Cymoedd Merthyr. Roedd y cyngor wedi cadw gweddill ei swyddogaethau statudol fel digartrefedd a chefnogi pobl (nawr gyda gwasanaethau cymdeithasol) a'r rheolaeth gyffredinol dros y gofrestr dai lle caiff dyraniadau i eiddo eu gwneud. Mae perthynas dda â phartneriaid landlord cymdeithasol cofrestredig yn hollbwysig mewn gwasanaeth tai effeithiol, yn enwedig pan fydd cyfran cymharol uchel o lety rhent gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel y ceir ym Merthyr Tudful (21.6%) ac mae swyddogion y cyngor yn dweud bod y cysylltiadau hyn yn rhai cadarnhaol a cheir tystiolaeth o ganlyniadau da yn sgil gweithio mewn

partneriaeth. Fodd bynnag, nid oes trafodaethau wedi cael eu cynnal eto gyda'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gael eu barn.

Mae yna broblem digartrefedd fawr ym Merthyr Tudful ac mae'r nifer sy'n cyflwyno eu hunain fel pobl ddigartref wedi cynyddu 35% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n ymddangos bod problem benodol o ran datrys digartrefedd ymysg y boblogaeth sy'n gadael carchar, sef y trydydd mwyaf yng Nghymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â hyn ond unwaith eto mae diffyg capasiti strategol yn y gweithlu tai yn llesteirio'r cyngor. Mae'n debyg y bydd yr adolygiad o gapasiti yn tynnu sylw at hyn fel problem.

Mae'r tanwariant mewn grantiau cyfleusterau i'r anabl wedi cael ei grybwyll yn barod a gobeithio y bydd y trefniadau cydweithio newydd arfaethedig gyda Rhondda Cynon Taf yn datrys hyn.

7. YMDDIRIEDOLAETH HAMDDEN.

Daeth yr Ymddiriedolaeth Hamdden a Diwylliant i rym ar 1 Ebrill 2015 ac ers hynny, drwy gytundeb contract, mae wedi rhedeg gwasanaethau o bortffolio o asedau gan gynnwys:

- Llyfrgelloedd
- Canolfannau Hamdden
- Parc Cyfarthfa
- Amgueddfa ac Oriel Gelf Cyfarthfa
- Cyfleusterau cymunedol yn Nhreharris a Gurnos
- Cyfleusterau chwaraeon yn yr awyr agored

Mae'n hysbys iawn nad fu'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth yn ffafriol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi hynny wrth adolygu'r gwasanaeth yn gynharach yn ystod y flwyddyn. Cafodd ei hadroddiad ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2019 a'r canfyddiad cyffredinol oedd "canfuwyd bod darparu gwasanaethau hamdden a diwylliant y Cyngor drwy gontract allanol wedi'u diogelu rhag toriadau, ond nid oes iddynt gyfeiriad strategol, mae'r contract presennol yn cyfyngu arnynt, ac mae angen eu goruchwyllo'n fwy effeithiol".

Fel rhan o'n hymarfer asesiad cyflym, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth ac ar wahân gyda swyddogion perthnasol y cyngor. Mae hi'n amlwg i ni nad oedd trefniadau llywodraethu a gweithrediadau'r Ymddiriedolaeth wedi cael y dechrau gorau, mae'n debyg bod hynny oherwydd mai dyma oedd y tro cyntaf i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb o'r fath ar gyfer gwasanaethau craidd. Mae cyllid yr Ymddiriedolaeth wedi bod

yn ansicr, ond mae'r cyfrifon diweddaraf yn dangos ei bod yn rhesymol i'r ymddiriedolwyr ddisgwyl bod gan y cwmni ddigon o adnoddau i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ei system Cyfrifyddu a'i staff ei hun nawr, mae mesurau, rheolaethau a gweithdrefnau ariannol newydd wedi cael eu rhoi ar waith a dylai'r rhain olygu bod y cwmni'n gallu cronni ei arian wrth gefn dros y blynyddoedd nesaf.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid ydy'r naill ochr yn ymddiried yn y llall o gwbl hyd yn oed i'r graddau eu bod bellach yn cyfathrebu â'i gilydd drwy gyfreithwyr oherwydd bod y Cyngor wedi cymeradwyo adroddiad i gymryd elfen Asedau Diwylliannol y trefniant yn ôl.

Dyma enghreifftiau o sylwadau sydd wedi cael eu hamlygu gan y partiön:

- Mae'r contract cyfredol yn gyfyngol, ond nid yw'r Cyngor wedi gwneud dim i adolygu telerau'r contract ac mae'n dal i ddisgwyl i'r Ymddiriedolaeth weithredu o fewn ei ffiniau. Un enghraifft yw ei bod yn rhaid i ganolfannau hamdden aros ar agor tan 10pm ar Noswyl Nadolig a Nos Calan.
- Mae'r cyngor yn cytuno bod y contract yn gyfyngol ac mae'n pwysleisio ei fod yn fodlon cael trafodaeth ynghylch amrywio'r contract.
- Mae'r wybodaeth rheoli perfformiad sydd ei hangen yn arbennig o fanwl ac mae'n cymryd llawer o amser i'w pharatoi ac mae'n ymddangos nad ydy'r Ymddiriedolaeth yn gwybod sut caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio yn y Cyngor.
- Mae'r cyngor yn rhwystredig oherwydd ei bod yn ymddangos nad ydy'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn ffordd fasnachol wrth weithredu'r adeiladau a'r gwasanaethau Treftadaeth.
- Tybiaeth cyllideb y Cyngor ar hyn o bryd ydy cwtogi £250,000 ar y ffi rheoli yn 2020/21 er nad ydy'r Ymddiriedolaeth wedi cael unrhyw arweiniad ynghylch pa wasanaethau dylid eu blaenoriaethu.
- "Mae'r Ymddiriedolaeth yn dyheu am bartneriaeth go iawn gyda'r Cyngor".
- "Mae'r anghytuno cyfreithiol yn rhwystredig i'r Cyngor"

Er gwaethaf y problemau hyn, mae'r naill barti a'r llall wedi ystyried caniatáu i'n tîm ymgymryd â rôl hwyluso er mwyn dod â'r ddwy ochr at ei gilydd i drafod diwygiadau i'r contract a materion eraill. Cynhaliwyd cyfarfod ar 3 Rhagfyr a symudodd pethau ymlaen yn dda. Fodd bynnag, mae hysbysiad anghydfod cyfreithiol yn dal i fodoli ac mae undebau llafur wedi codi'r broblem yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru. Yn ddiweddar mae'r Cyngor ei hun wedi gwneud penderfyniadau sy'n dangos ei fod yn barod i weithio drwy'r anawsterau. Er enghraifft mae trafodaethau diweddar rhwng yr Ymddiriedolaeth

a'r Cyngor wedi arwain at gau'r pwll nofio i'w drwsio a chawn ar ddeall y bydd y cyngor yn gwneud y gwaith adfer angenrheidiol. Fodd bynnag, ceir pryderon ehangach os na chaiff yr anghydfod hwn ei ddatrys y gallai lesteirio cynnydd yn enwedig ar y prosiect Crochan Treftadaeth Ddiwydiannol sy'n werth £50miliwn. Mae tîm y bwrdd wedi cwrdd â Chomisiwn Dylunio Cymru ac wedi siarad â Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae rhwystredigaeth ynghylch yr oedi. Bydd sylw nawr yn troi at sefydlu Cyfrwng Prosiectau Arbennig er mwyn rheoli'r prosiect yn strategol.

Cam gweithredu 12 – Ymddiriedolaeth Hamdden

- *Datrys yr anghydfod cyfreithiol rhwng y cyngor a'r Ymddiriedolaeth Hamdden a symud yn amserol i sefydlu'r Cyfrwng at Ddibenion Arbennig ar gyfer y Prosiect Crochan Treftadaeth.*
- *Ar frys, mae angen i'r Cyngor a'r Ymddiriedolaeth sefydlu newidiadau derbyniol ar lefel isel i weithrediad y contract er mwyn cyflawni'r arbedion sydd eu hangen ar y Cyngor ar gyfer 2020/21.*

8. GWASANAETHAU ERAILL.

Ni chawsom gymaint o gysylltiad â gwasanaethau eraill ar wahân i'r rheini a oedd yn cael sylw yn adroddiad John Gilbert, ond rydym wedi siarad ag amrywiaeth o reolwyr gwasanaeth. Mae casgliad cyffredinol yn dilyn sy'n atgyfnerthu ein casgliadau yn enwedig mewn perthynas â chapasiti a gwytnwch. Er enghraifft roedd llythyr archwilio blynyddol diweddar Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi'r canlynol. "Canfu ein hadolygiad o wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor fod adnoddau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor wedi lleihau, ac na all ddangos ei fod yn cyflenwi ei holl wasanaethau iechyd yr amgylchedd statudol". Mae'n debyg bod y casgliad hwn yn berthnasol i ystod o wasanaethau allweddol eraill, ond bydd angen i'r tîm wneud rhagor o waith i brofi hyn petai Llywodraeth Cymru yn gofyn am hyn.

9. CASGLIAD.

Mae'r asesiad cyflym hwn yn cael ei gyhoeddi a ninnau ar fin cael cyhoeddiad ynghylch y setliad ariannol drafft i lywodraeth leol ar gyfer 2020/21. Ceir arwyddion y gallai'r setliad fod yn well na'r disgwyl ac mae modd adolygu tybiaeth Merthyr Tudful ynghylch canlyniad y gyllideb sef -1% am i fyny. Mae'r cyngor wedi dechrau addasu ei syniadau i adlewyrchu hyn ond mae hefyd yn sylweddoli ei bod yn rhaid buddsoddi unrhyw arian newydd yn ddoeth. Mae ein tîm wedi pwysleisio bod y gyllideb ysgolion yn faes pwysig y mae angen rhoi sylw iddo ac mae wedi pwyso bod tybiaethau ynghylch y dreth

gyngor yn cael eu cynnal gyda chynnydd o 5.99%. Yn fwy na hyn, rydym yn teimlo bod angen i'r adolygiad o gapasiti ddod o hyd i feysydd lle mae'r sefydliad yn fregus ac sy'n galw am fuddsoddiad ar unwaith. Er ein bod yn gwybod bod ar y weinyddiaeth eisiau cefnogi agenda o wella tir y cyhoedd, ceir risgiau strategol brys y mae angen mynd i'r afael â nhw. Yn yr un modd, mae problemau'n dal i fodoli gyda ffactorau fel yr hawliad tâl a allai lyncu rhagor o adnoddau. Unwaith eto mae adran gyllid y cyngor yn cydnabod y rhain.

Y Diwylliant Gwleidyddol

O ganlyniad i'r amrywiaeth o faterion sydd wedi cael sylw drwy'r adroddiad hwn mae'r tîm yn teimlo bod angen monitro'r cyngor yn ofalus. Mae hyn yn cynnwys y diwylliant gwleidyddol. Ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mae yna "gwerylon" a "dramâu" gwleidyddol yn gysylltiedig ag amrywiaeth o faterion. Mae llawer hyn yn digwydd ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Facebook. Mae'r tîm yn derbyn yn llwyr bod hyn yn rhan o daro a gwrthdaro gwleidyddiaeth leol. Mae'n rhaid i ddadl ddemocrataidd fod yn gadarn ac yn drwyadl. Ond yn achos Merthyr Tudful mae hyn yn gallu sugno llawer iawn o egni'r sefydliad a hynny ar draul materion pwysicach. Gyda'r diffyg capasiti difrifol sy'n cael ei amlygu yn yr adroddiad hwn, ni all y cyngor fforddio cael ei lethu gan hyn. Yn rhy aml o lawer mae gofyn i uwch swyddogion chwarae rhan y "dyfarnwr" yn hytrach na chynghorwyr proffesiynol. Rhaid rhoi sylw i hyn gyda newid amlwg mewn ffordd o feddwl o fod yn elyniaethus i fod yn strategol. Mae hi'n hollbwysig bod hyn yn digwydd neu bydd y gwaith o lywodraethu'r cyngor yn parhau i fod dan chwyddwydr cyrff rheoleiddio fel Swyddfa Archwilio Cymru. Mae syniadau'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn awgrymu ffordd ymlaen yn hyn o beth. Mae angen i'r cyngor greu fframwaith sy'n golygu bod modd cytuno ar ganlyniadau a blaenoriaethau sy'n cael eu cymeradwyo ar y cyd sydd;

- Yn berchen i bob partner ac arweinydd lleol mewn ardal;
- Yn darparu mecanwaith i arweinwyr ddal ei gilydd i gyfrif ar draws Merthyr Tudful;
- Yn mynegi rolau a chyfrifoldebau'n glir, ac yn nodi'r fframwaith ar gyfer cydweithio a gwneud penderfyniadau mewn ffordd ystyriol;
- Yn sefydlu sut y bydd rhannu gwybodaeth, tryloywder, penderfyniadau ar sail tystiolaeth/mewnwelediad yn gweithio.
- Yn datgan yr ymddygiad newydd – gan gynnwys diwylliant gwleidyddol newydd – sydd ei angen er mwyn i'r pethau hyn lwyddo;

Ni ellir gorbwysleisio brys y pwyntiau hyn. Y brif broblem yw cyflwr enbyd y cyngor a meithrin gwytnwch. Er ein bod ni o'r farn bod y cyngor yn gallu

cynnal ei hun yn y tymor byr gyda chefnogaeth barhaus, mae hyn yn amodol. Mae cefnogaeth yn gallu helpu drwy drosglwyddo a gwreiddio sgiliau i'r tîm craidd yn y cyngor. Ond rydym yn cydnabod bod graddfa'r problemau capasiti rydym wedi'u canfod yn golygu y gallai hynny olygu llenwi tyllau dros dro ac y gallai'r problemau godi drachefn. Hyd yn oed gyda thwf mewn cyllidebau mae gwendid ariannol, capasiti adnoddau ac iechyd sefydliadol Merthyr Tudful yn peri pryder ac yn rhywbeth y bydd angen parhau i'w archwilio.

Drwy ddefnyddio rhai o nodweddion clasurol theori iechyd sefydliadol rydym yn gweld problemau mawr eraill sy'n ymwneud â'r canlynol -

- **Safon y Cyfathrebu** – sefyllfa ddelfrydol pan na chaiff gwybodaeth ei hystumio a'i bod yn teithio'n fertigol ac yn llorweddol ar draws ffiniau'r sefydliad.
- **Pŵer Cyfartal** - y gallu i gynnal dosbarthiad gweddol gyfartal o ddyllanwad rhwng yr aelodau a'r swyddogion.
- **Defnyddio Adnoddau** - y gallu i gydlynu ac i gynnal mewnbwn, yn enwedig personél, yn effeithiol gyda chyn lleied â phosibl o straen.
- **Morâl** - y cyflwr lle mae gweithwyr y cyngor yn teimlo'n obeithiol, yn ddiogel, yn fodlon ac yn dda.
- **Arloesi** - y gallu i ganiatáu i swyddogion fod yn ddyfeisgar, yn amrywiol yn greadigol a chymryd risgiau.
- **Addasu** - y gallu i ymdopi â straen a chynnal sefydlogrwydd ar yr un pryd â newid i ddiwallu anghenion unigryw rhanddeiliaid y cyngor.
- **Safon Datrys Problemau** – gallu'r cyngor i sylwi ar broblemau a'u datrys drwy ddefnyddio cyn lleied o egni â phosibl. Mae problemau'n cael eu datrys, yn aros wedi'u datrys ac mae gweithdrefnau datrys problemau yn cael eu cryfhau.
- **Rheoli Risg** – y gydnabyddiaeth bod rheoli risg yn y cyngor bellach yn cael ei wneud mewn cyd-destun penodol a heriol gyda llawer o'r cyhoedd yn ymwybodol o faterion risg a disgwyliadau uwch y rheini sy'n talu'r dreth gyngor, ar yr un pryd ag y mae ymddiriedaeth y cyhoedd mewn sefydliadau'n disgyn.

Mae hyn oll yn awgrymu bod yr hyn a ganfu Swyddfa Archwilio Cymru yn ei llythyr ar 31 Mai 2019 sef “sefyllfa bryderus dros ben” yn y cyngor yn dal i fodoli. Er enghraifft, er bod y sefyllfa well mewn gwasanaethau cymdeithasol wedi codi ein calon, er bod honno'n dal yn sefyllfa fregus, rydym yn poeni'n arw am y gwasanaeth addysg ac a ydy plant yn cael eu gwasanaethu'n dda gan eu hysgol. Nid oes llywodraethu corfforaethol sefydlog yn yr awdurdod ar hyn o bryd. Fel mae'r adroddiad hwn yn ei nodi rydym yn teimlo bod elfennau o hyn yn broblemus a bod angen rhoi sylw iddynt ar frys. Dyna pam mae angen cymryd camau ar frys i gefnogi'r capasiti. Bydd angen i'r Gweinidog gytuno ar yr holl gymorth statudol a gynigir a bydd angen gallu sicrhau y bydd y pecyn o gapasiti ychwanegol yn gwneud gwahaniaeth. Yn y pen draw, diben darparu capasiti ychwanegol ydy helpu'r cyngor i ddatblygu ei allu ei hun i fynd i'r afael â'i heriau'n annibynnol ac yn gynaliadwy. Os na fydd y newid angenrheidiol yn digwydd yna bydd angen edrych ar ddewisiadau mwy radical.

Chris Burns -	Arweinydd Addysg ac Adfywio
Tony Garthwaite -	Arweinydd Gofal Cymdeithasol a Thai
Christine Salter –	Arweinydd Llywodraethu Corfforaethol a Chyllid
Steve Thomas –	Cadeirydd y Bwrdd

Rhagfyr 2019

Atodiad 1 - Camau Gweithredu sy'n Deillio o Aseiad Cyflym y Tîm Craidd

Cam Gweithredu 1 – Dylid cynnal adolygiad byr o rolau a chyfrifoldebau'r uwch reolwyr i roi min ar strwythur rheoli a threfniadaethol y cyngor a diffinio portffolios a rhychwantau gwaith yn glir.

Cam Gweithredu 2 - Dylai'r adolygiad o gapasiti helpu i gyfrannu at y syniadau ynghylch y strwythur rheoli mwyaf priodol i'r cyngor fel y nodir yng Ngham Gweithredu 1. Awgrymir y dylai'r adolygiad o gapasiti fod yn rhan o'r pecyn cymorth ynghyd â darparu cynghorydd allanol annibynnol.

Cam Gweithredu 3 – Rydym yn cynnig gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu'r cyngor drwy ddod o hyd i gymorth allanol i ddatblygu cynllun trawsnewid / gwella, a fyddai'n seiliedig ar brif ganfyddiadau ac argymhellion adolygiad cwmpasu John Gilbert ond nid dim ond y rheini.

Cam Gweithredu 4 - Mae achos clir dros edrych yn fanylach ar bosibilrwydd rhannu gwasanaethau a mentrau cydweithredol mewn meysydd eraill, yn

enwedig swyddogaethau cefnogi'r cyngor. Mae'r tîm yn cynnig y dylid edrych ar hyn yn fanwl ac y dylai trafodaethau ddechrau ar unwaith gydag awdurdodau cyfagos.

Cam Gweithredu 5 – Datblygu'r Arweinydd, y Cabinet ac Aelodau

- *Mae'r Arweinydd wedi cytuno i gael rhagor o gefnogaeth mentora a ddarperir gan y Cyngorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd Sir Ddinbych ers tro. Mae sesiwn mentora wedi cael ei chynnal.*
- *Arweinyddiaeth ac ymrwymiad gan Arweinwyr Grŵp i sicrhau bod aelodau'n cymryd rhan yn y rhaglen gwella. Mae angen i bawb lenwi PDR.*
- *Arweinyddiaeth a Chysylltiadau Gwleidyddol (rhwng y weinyddiaeth a'r gwrthbleidiau a rhwng y weinyddiaeth a swyddogion) – Rydym wedi siarad â CLILC sy'n cynnig Max Caller CBE, Prif Weithredwr profiadol iawn sydd wedi gweithio i Lywodraeth Cymru ac sy'n mentora arweinwyr a phrif weithredwyr ar draws Lloegr.*
- *Datblygu'r Cabinet, creu gweledigaeth a chynllunio – caiff hyn ei ddarparu o bosibl gan y Cyngorydd Neil Prior sy'n uwch gyngorydd Annibynnol o Sir Benfro. Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi'i argymhell gan ei fod wedi gwneud gwaith tebyg yn Lloegr ac mae'n isgadeirydd Bwrdd Gwella'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.*
- *Sgiliau Cadeirio – ar gyfer pob cadeirydd (gallai CLILC ddarparu neu gomisiynu hyn)*
- *Craffu – datblygu sgiliau er mwyn cael trefniadau craffu cadarn a threfnus*

Cam Gweithredu 6 – Craffu

- *Mae angen rhagor o ddatblygiad pwrpasol ar aelodau o ran sut mae craffu'n effeithiol (cyfrifoldeb a swyddogaeth graidd craffu, sgiliau holi, defnyddio data etc). Mae angen i hyn sicrhau y gall craffu gyflawni ei brif swyddogaeth sef “dal y Weithrediaeth i gyfrif” ar yr un pryd â chyfrannu'n fwy cadarnhaol at ffurfio polisiau a datblygu fframwaith polisi cyffredinol y cyngor.*
- *Cyflwyno cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd rhwng Cadeiryddion Craffu i hybu rhannu profiadau a dulliau gweithredu.*

Cam gweithredu 7 – Cyllid corfforaethol

- *Mae angen i swyddogion ac aelodau'r Cabinet gytuno ar amserlen cyllideb sy'n nodi'r dyddiadau olaf i gytuno ar gydrannau'r gyllideb.*

- *Codi ymwybyddiaeth o'r strategaeth ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y gyllideb.*
- *Dylid adolygu lefel a fformat yr wybodaeth a ddefnyddir mewn cyflwyniadau i randdeiliaid gan gynnwys y cabinet, grwpiau gwleidyddol, cyflogeion, undebau llafur a phwyllgorau, er mwyn hybu dealltwriaeth o'r rhesymau dros benderfyniadau anodd.*
- *Adolygu defnyddio unrhyw welliant yn setliad ariannol 2020/21 yn erbyn cefndir yr her ariannol tymor canolig.*
- *Ystyried cyflwyno polisi chwyddiant yn adroddiad cyllideb 2020/21 a fyddai'n dileu'r angen am adroddiadau codi tâl penodol.*
- *Adolygu cyfrifon mantolen i weld a oes modd rhyddhau unrhyw adnoddau yn y dyfodol.*
- *Ehangu nifer yr awdurdodau yr ymgysylltir â nhw i rannu arferion da.*

Cam gweithredu 8 – Caffael corfforaethol

- *Dadansoddi gwariant categori gyda chefnogaeth allanol.*

Cam gweithredu 9 – Trawsnewid/Newid

- *Mae angen cwblhau cydrannau'r Rhaglen newydd yn brydlon a datblygu strategaeth gyfathrebu bellgyrhaeddol.*
- *Fel rhan o ddull gweithredu ffurfiol y Cyngor mae angen cwblhau a mabwysiadu'r dangosfwrdd Rheoli Perfformiad sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.*

Cam gweithredu 10 – Addysg

- *Sefydlu dealltwriaeth glir a manwl o beth mae gwella a thrawsnewid ysgolion yn ei olygu ym Merthyr Tudful; lle mae angen gwneud gwelliannau; beth ydy'r blaenoriaethau; a pha ran mae angen i bob parti sy'n ymwneud â darparu addysg ei chwarae.*
- *Rhagor o ymdrechion i wella presenoldeb ac ymddygiad, gan adeiladu ar y cynlluniau sydd eisoes ar waith.*
- *Rhagor o gydweithio rhwng ysgolion, a darparwyr eraill, i rannu adnoddau ac arferion gorau. Gyda dim ond pedair ysgol uwchradd, ac un Coleg Addysg Bellach, mae cyfle gwych i Ferthyr Tudful ddatblygu agwedd sy'n wirioneddol 'golegaidd' o ran darparu a gwella addysg.*
- *Dealltwriaeth gadarn o rôl Cyrff Llywodraethu, yr awdurdod lleol a chonsortïwm Canolbarth De Cymru a'r ffordd mae pob un yn chwarae ei ran yn y strategaeth gyffredinol. Bydd hi'n hanfodol cael dealltwriaeth*

glir o rôl pob partner, gan gydweithio fel tîm integredig tuag at strategaeth sydd wedi cael ei datblygu'n ofalus.

- *Yn benodol, mae angen i'r awdurdod lleol drafod â'r Consortiwm ynghylch a ydy'r gefnogaeth bresennol yn effeithiol a'r hyn sydd ei angen i herio ysgolion yn fwy effeithiol a'u cefnogi i wella.*
- *Parodrwydd gan yr awdurdod lleol i ddefnyddio ei bwerau statudol i'r eithaf os na fydd pethau'n gwella.*
- *Yn benodol, efallai bydd angen penderfyniad ar frys ynghylch pa gamau pellach a gymerir i gefnogi Ysgol Uwchradd Cyfarthfa i wella gan fod llythyr rhybudd anffurfiol eisoes wedi'i gyhoeddi ond mae'r canlyniadau'n dal i beri pryder mawr.*
- *Ailwerthuso rôl pwyllgor craffu'r cyngor i sicrhau ei fod yn chwarae ei ran drwy fonitro'r cynnydd a datblygu a chyflawni'r strategaeth ar gyfer addysg a gwella ysgolion.*
- *Asesiad o effeithiolrwydd cyrff llywodraethu ysgolion a rôl llywodraethwyr a benodir gan yr awdurdod lleol. Mae angen i'r rheini a benodir gan yr awdurdod lleol yn benodol ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt yn y rôl a beth ydy uchelgais a gweledigaeth yr awdurdod ar gyfer addysg ac ysgolion ym Merthyr Tudful.*
- *Sicrhau parodrwydd digonol ar gyfer cyfnod o ddiwygio addysg a newid yn y cwricwlwm.*
- *Yn dilyn arweiniad y Prif Swyddog Addysg, dylai Merthyr Tudful sefydlu dull amlasiantaeth, ar sail model 'Cynhadledd Gwella' anffurfiol sydd wedi cael ei fabwysiadu'n llwyddiannus mewn rhannau eraill o Gymru. Byddai hyn yn dod â phartïon allweddol ynghyd sy'n cynnwys yr awdurdod lleol (gan gynnwys Aelodau etholedig), penaethiaid, llywodraethwyr, y consortiwm addysg, Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac eraill, er mwyn rhoi sylw i faterion megis perfformiad, llythrennedd a rhifedd a phryderon ehangach.*
- *Yn olaf, rydym yn argymhell y byddai'r cyngor yn elwa o gapasiti ychwanegol nawr ac yn y tymor byr (oddeutu chwe mis) ar ffurf cyngorwyr allanol mewn addysg er mwyn cyflymu'r newid a'r gwelliant angenrheidiol sydd eu hangen ar y cyngor. Bydd cylch gwaith a phwrpas y cyngorwyr allanol yn cael eu datblygu ar y cyd â'r aelod allanol perthnasol o'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth / Prif Swyddog perthnasol o'r Cyngor. O ran Addysg, byddai hefyd yn ddefnyddiol archwilio'r posibilïadau i gael cymorth drwy'r consortia.*

Cam gweithredu 11 – Gofal Cymdeithasol

- *Mae'r broblem o ran capasiti yn amlwg ac mae'n debygol y bydd cefnogaeth ychwanegol wedi'i thargedu ar frys, yn enwedig ym meysydd cymorth busnes a rheoli newid, yn debygol o ddwyn ffrwyth yn weddol gyflym. Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac rydym yn chwilio am gymorth.*
- *Mae angen cynnal trafodaethau gyda sefydliadau partner i brofi eu dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu Merthyr ac i archwilio ffyrdd o sicrhau bod cyfraniad Merthyr at waith rhanbarthol yn cael ei wella, ynghyd â'r budd a gaiff o hynny. Rydym yn fodlon hwyluso'r trafodaethau hyn.*
- *Mae angen trafodaethau mewnol rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a chydweithwyr yn y ganolfan gorfforaethol i sicrhau bod digon o gymorth busnes a gweinyddol ar gael bob amser. Unwaith eto rydym yn fodlon hwyluso'r rhain a byddai modd iddynt fod yn rhan o unrhyw waith ar adolygu strwythur y sefydliad.*

Cam gweithredu 12 – Ymddiriedolaeth Hamdden

- *Datrys yr anghydfod cyfreithiol rhwng y cyngor a'r Ymddiriedolaeth Hamdden a symud yn amserol i sefydlu'r Cyfrwng at Ddibenion Arbennig ar gyfer y Prosiect Crochan Treftadaeth.*
- *Ar frys, mae angen i'r Cyngor a'r Ymddiriedolaeth sefydlu newidiadau derbyniol ar lefel isel i weithrediad y contract er mwyn cyflawni'r arbedion sydd eu hangen ar y Cyngor ar gyfer 2020/21.*